YSGOL GYFUN YSTALYFERA

Pennaeth / *Head*
Matthew H. T. Evans

Ffôn/*Tel*: 01639 842129
Ffacs/*Fax*: 01639 845681
e-bost/*e-mail*:
ygystalyfera@npted.org

Ysgol Gyfun Ystalyfera
Glanyrafon
Ystalyfera
Abertawe/*Swansea*
SA9 2JJ

Ebrill 2012

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Rwy'n gobeithio y cawsoch amser da fel teulu dros wyliau'r Pasg a bod y disgyblion yn edrych ymlaen at Dymor yr Haf yma yn Ystalyfera. Hoffwn dynnu eich sylw at rai digwyddiadau a materion yn ystod y tymor hwn.

Ymweliad Ysgol Rondebosch, De Affrica

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r athrawon a'r disgyblion, yn bennaf i'r Chweched wnaeth groesawu disgyblion o Cape Town atom cyn gwyliau'r Pasg. Cafwyd cyfle ardderchog i greu partneriaeth a chael cipolwg o ddiwylliant gwlad arall drwy gyfrwng rygbi, cystadleuaeth a chymdeithas. Diolch arbennig ichi fel rhieni oedd yn gallu croesawu ymwelydd atoch i'ch cartref.

Gwerthu losin ar safle'r ysgol

Yn anffodus, cafwyd nifer o achosion o ddisgyblion yn gwerthu losin a diodydd i'w cyd-ddisgyblion yn ystod egwyl a chinio dros y tymor diwethaf. Hoffem nodi yn glir iawn nad oes caniatâd i weithredu fel hyn a hoffwn ddod a'r arfer hon i ben yma yn Ystalyfera. Mae'r sbwriel sy'n cael ei gynhyrchu o'r arfer yn anfoddhaol heb sôn am dorri ar draws egwyddorion bwyta iach yr ysgol. Os ydych fel rhieni yn ymwybodol o hyn, cysylltwch â'r ysgol i gael gwared â'r arfer hon o gymuned yr ysgol.

HMS Mai 11eg 2012

Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar Ddydd Gwener 11eg o Fai ar gyfer HMS staff.

Arholiadau TGAU / UG a U2

Bydd arholiadau TGAU i ddisgyblion Bl 11 yn dechrau ar Ddydd Llun Mai'r 14eg, a bydd pob disgybl yn derbyn amserlen unigol bersonol o flaen llaw. Dydd olaf Blwyddyn 11 ar gyfer gwersi fydd un ai Dydd Mercher 9fed o Fai neu Ddydd Iau 10fed o Fai a byddwn yn hysbysu'r disgyblion o'r dyddiad cywir yn nes at y dyddiad. Bydd arholiadau UG Bl 12 a 13 yn dechrau hefyd ar y 14eg o Fai, er bydd gwersi cyrsiau BTEC yn parhau wedi'r dyddiad hwn.

Eisteddfod Yr Urdd

Hoffem longyfarch yn gynnes iawn yr unigolion a grwpiau fydd yn cystadlu a chynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Eryri. Byddwn yn cyhoeddi rhestr lawn o'r cynrychiolwyr ar ein gwefan yn y dyddiau nesaf.

Gwaith adnewyddu

Er bod ychydig o anghyfleustra wedi ei achosi i ddisgyblion yn yr wythnos hon, rwy'n hynod falch fod tri o'r ystafelloedd tŷ bach wedi eu hadnewyddu'n llwyr dros wyliau'r Pasg. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r cyngor ysgol am eu gwaith ar y mater yma ac rwy'n gwerthfawrogi cymorth gan y Cyngor i'r ysgol ar y gwaith adnewyddu. Rwy'n sicr fod hyn am hybu lles disgyblion yn Ystalyfera.

Digwyddiadau o bwys yn ystod y tymor hwn:

19 Ebrill	Noson Rieni Bl 7 (4 - 7pm)
19 Ebrill	Noson Cymorth Addysg Uwch Bl 13 (3.30 – 7pm)
26 Ebrill	Noson Rieni Bl 10 (4 - 7pm)
2 Fai	Ymweliad y Goron Driphlyg ag Ystalyfera!
2 Fai	Ymweliad Bl 11 i weld '*An Inspector Calls'* Adran Saesneg
4 Mai	Ymweliad Bardd Plant Cymru, Eurig Salisbury ag Ystalyfera
4 Mai	*'UK Maths Challenge'* CA3
7 Mai	**Gŵyl Banc Mai**
8 – 9 Mai	Arholiadau Bl 7 a 8
9 / 10 Mai	Dydd olaf gwersi Bl 11
11 Mai	**HMS staff, ysgol ar gau i ddisgyblion**
14 Mai	Arholiadau TGAU / UG yn dechrau
16 Mai	Proms Lleisiol Blwyddyn 5
21 – 25 Mai	Dosbarthiadau Bl 7 i hyfforddiant Technocamps Prifysgol Abertawe
25 Mai	Adroddiadau Bl 9
2 – 10 Mehefin	**Hanner tymor**
	Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd Eryri 2012

Os hoffech fwy o fanylion am weithgareddau'r ysgol peidiwch â phetruso cysylltu â ni ar y rhifau arferol.

Yn gywir,

Matthew H T Evans
Pennaeth

YSGOL GYFUN YSTALYFERA

Pennaeth / *Head*
Matthew H. T. Evans

Ffôn/*Tel*: 01639 842129
Ffacs/*Fax*: 01639 845681
e-bost/*e-mail*:
ygystalyfera@npted.org

Ysgol Gyfun Ystalyfera
Glanyrafon
Ystalyfera
Abertawe/*Swansea*
SA9 2JJ

April 2012

Dear Parent / Guardian,

I trust you had a good time as a family over the Easter holidays and that the pupils are looking forward to the Summer term here at Ystalyfera. I'd like to draw your attention to some matters and events during this term.

Visit from Rondebosch School, South Africa

I'd like to sincerely thank the teachers and pupils, especially the Sixth Form who welcomed pupils from Cape Town before the Easter holidays. We enjoyed this excellent opportunity to create a partnership and gain an insight into the culture of another country through the medium of rugby, competing and socialising. Special thanks also to you as parents who were able to welcome a visiting student to your homes.

Selling sweets on school site

Unfortunately, there have been a number of incidents of pupils selling sweets and drinks to their fellow pupils during morning break and lunchtimes last term. I would like to make it very clear that this behaviour is not allowed and that we would wish to end this practice at Ystalyfera. The litter that accumulates due to this practice is unacceptable as well as opposing our healthy schools' initiative. If as parents you are aware of this happening, please contact us to stop this practice within the school's community.

INSET May 11th 2012

School will be closed to pupils on Friday 11th May for a staff INSET day.

GCSE, A & AS Examinations

GCSE examinations for Year 11 pupils will commence on Monday 14th May, and each pupil will receive their personal timetable beforehand. The final teaching day for Year 11 pupils will either be Wednesday 9th May or Thursday 10th May, and pupils will be notified of the correct date nearer the time. Year 12 and 13 examinations will also start on the 14th of May, although BTEC courses will continue after this date.

Urdd Eisteddfod

I'd like to warmly congratulate the individuals and groups who will be competing and representing the school at the Urdd National Eisteddfod in Eryri. We shall be publishing the full list of competitors on our website in the next few days.

Recent Refurbishments

Although it has caused some disruption during the past week, I am very pleased that three of our toilet blocks have been refurbished during the Easter break. I would especially like to thank the school council for their work on this issue and I appreciate the support given to the school by the Council in assisting the school with this important refurbishment. I'm sure this will improve pupil welfare at Ystalyfera.

Important events during this term:

19 April	Year 7 Parents Evening (4 - 7pm)
19 April	Year 13 Higher Education Support Evening (3.30 – 7pm)
26 April	Year 10 Parents Evening (4 - 7pm)
2 May	The Triple Crown official visit to Ystalyfera!
2 May	English Department Year 11 visit 'An Inspector Calls'
4 May	Visit by Eurig Salisbury, Welsh Children's Poet to Ystalyfera
4 May	KS3 'UK Maths Challenge'
7 May	**May Bank Holiday**
8 – 9 May	Year 7 & 8 examinations
9 / 10 May	Last day of lessons for Year 11
11 May	**Staff INSET, school closed to pupils**
14 May	GCSE / A level examinations start
16 May	Year 5 Vocal Proms
21 – 25 May	Technocamps training for Year 7 at classes Swansea University
25 May	Year 9 reports
2 – 10 June	**Half term**
	National Urdd Eisteddfod Eryri 2012

If you would like any additional information regarding our activities at Ystalyfera please do not hesitate to contact us at the school.

Yours truly,

Matthew H T Evans
Head